# Ysgol Gynradd Gymraeg



# Llwynderw

# Prosbectws



# Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw

Lôn West Cross, West Cross SA3 5LS

Ffôn: 01792 407130
ebost: ygglIwynderw@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan: ygglIwynderw.co.uk

## Llawlyfr i Rieni

## 2025-2026

**‘Yma gyda’n gilydd yn gwneud ein gorau glas’**

Pennaeth: Mrs Rachel Collins
Dirprwy Bennaeth: Mrs Sarah Proctor-Morgan
Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mrs Ann Evans

# YGG Llwynderw

## Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas.


**Bydd ethos ein hysgol yn:**

- Magu balchder fel Cymry yn ein hanes, ein traddodiad a'n hiaith.
- Annog Cyfeillgarwch a Charedigrwydd fel aelod o'r gymuned a dinasydd cydwybodol.
- Gwerthfawrogi Ymdrech, yr awydd i bob amser gwneud ein gorau glas.

**Ein nod fel ysgol yw datblygu:**

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r Byd.
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Ein gweledigaeth**




**Er mwyn cyflawni ei nod a sicrhau bod ein bod yn gwireddu ein gweledigaeth rhaid ein bod yn CREDU ...**



# Ein cwricwlwm: Mwmbwls y Môr a Mwy.

Mae gan Ysgol Gynradd Llwynderw dull thematig o gynllunio'r cwricwlwm, gan geisio gwneud defnydd effeithiol o'r ardal leol- y bobl a'u hanes.
Dros gyfnod mae staff wedi datblygu a mireinio dull thematig ysgol gyfan wrth iddynt gyflwyno'r cwricwlwm.
Mae'r dull hwn yn seiliedig ar yr athroniaeth y dylai disgyblion dderbyn cwricwlwm eang a chreadigol sy'n datblygu medrau (pynciol a thrawsgwricwlaidd), gwybodaeth a dealltwriaeth, a brwdfrydedd ymhlith disgyblion i fod yn ddysgwyr gydol oes.

Mae Cwricwlwm Llwynderw wedi'i gwreiddio yn ein hardal leol, ein hanes a'r bobl. Mae wedi ei strwythuro o gwmpas themâu ac fe gaiff medrau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol y disgyblion eu datblygu yng nghyd-destun y themâu hyn.
Mae'r strategaeth yn hyrwyddo pwysigrwydd medrau meddwl a datblygu meddwl disgyblion ar draws ystod o feysydd y cwricwlwm.
Mae cyflymdra'r dysgu ac ehangder profiadau cynlluniedig yn cefnogi dysgwyr i fod yn llythrennog a rhifog a chanddynt safonau da iawn o gymhwysedd digidol, tra bod ganddynt ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol o fewn y meysydd dysgu sef- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Y Dyniaethau,Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.





## Croeso gan y Pennaeth

Ar ran yr ysgol gyfan hoffwn eich croesawu i Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw. Agorodd yr ysgol yn wreiddiol yn 2002 yn Sgeti cyn symud i'w safle presennol yn West Cross ym Medi 2008.
Mae mynd i'r ysgol am y tro cyntaf yn gam mawr iawn ym mywyd eich plentyn, yn ogystal â'ch bywyd eich hun. Rydym eisiau i'r newid hwn o'r cartref i'r ysgol neu o ysgol i ysgol fod mor ddigynnwrf â phosibl. Gyda chymorth y prosbectws hwn, mae'r cysylltiad cychwynnol wedi ei wneud. Ni all yr un prosbectws ateb eich holl gwestiynau, felly dewch i'r ysgol gyda'ch plentyn i weld drosoch eich hun pa mor hapus yw'r plant a pha mor dda maen nhw'n gweithio gyda'u hathrawon. Holwch rieni a disgyblion eraill am eu barn am yr ysgol. Gyda'n gilydd, gobeithio, gallwn roi'r dechrau gorau un i'ch plentyn yn ei fywyd/bywyd yn Ysgol Gymraeg Llwynderw.
Mae arwyddair ysgol 'Yma gyda'n gilydd yn gwneud ein gorau glas,' yn crynhoi ein nod fel ysgol yn glir megis mae drwy waith tîm byddwn yn llwyddo ac yn annog ein gilydd, boed yn ddisgyblion neu yn staff i roi o'n gorau yn gyson.
Ein nod fel ysgol a chymuned yw sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi ac ysgogi ein plant ar hyd eu llwybr addysgol. Gwneir hynny wrth i ni sicrhau awyrgylch gofalgar a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi a chydnabod ymdrech bob plentyn, ac yn rhoi llais y plentyn yn ganolig i bob dim.
Mae cydweithio a chyfathrebu yn allweddol i lwyddiant yr ysgol a mawr obeithiaf bydd y cyfuniad o wybodaeth drwy'r prosbectws, gwefan yr ysgol a'r cylchlythyron wythnosol yn rhoi blas i chi ar fywyd yr ysgol ac yn eich diweddaru am ddigwyddiadau ar draws yr ysgol.
Yn Ysgol Llwynderw mae gyda ni bolisi drws agored a theimlwn fod cydweithio agos rhwng rhieni, gofalwyr a phartneriaethau'r ysgol yn holl bwysig. Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi a'ch plentyn i'r ysgol. Cysylltwch â'r ysgol er mwyn trefnu apwyntiad i ymweld â'r ysgol er mwyn i chi brofi ein hethos cyfeillgar a bwrlwm dyddiol y dysgu ac addysgu.

Cofion cynnes

Mrs Rachel Collins
Pennaeth

# Datganiad Cenhadol

Ein bwriad yn ysgol Llwynderw yw cyflwyno addysg gyflawn i’r plant o fewn awyrgylch hapus, ysgogol a diogel. Mae pob plentyn yn unigolyn â’i anghenion, ei dalentau a’i syniadau ei hun a’r hawl i gyfleoedd cyfartal. Mae’n ddyletswydd arnom felly i sicrhau fod pob unigolyn yn cael y cyfle gorau posibl i ddatblygu i’w lawn neu’i llawn botensial sy’n golygu fod y plant yn cael eu cyflwyno i nifer fawr o brofiadau ystyrlon ar lawer o lefelau gwahanol ac yn mwynhau llwyddiant.

## Datganiad Diogelu

Mae llywodraethwyr a staff ***Ysgol Gynradd Gymareg Llwynderw*** yn gwbl ymroddedig i lynu wrth adran 175 Deddf Addysg 2002 sy'n gofyn bod trefniadau ar waith gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau a gynhelir er mwyn iddynt arfer eu swyddogaethau o ran diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r Corff Llywodraethu ***Ysgol Gynradd Gymareg Llwynderw*** yn ymateb i amcan cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy:-

- greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;
- nodi lle ceir pryderon lles plant a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â hwy, lle y bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill;
- sicrhau y gwrandewir ar blant os ydynt yn mynegi pryderon; a
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant drwy'r cwricwlwm.





**Cyflwyniad**

Croeso i Ysgol Gymraeg Llwynderw. Mae'r prosbectws hwn yn cynnwys gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch wrth i’ch plentyn ddechrau yn yr ysgol.

Ein nod yw helpu pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn drwy gyflwyno addysg gyflawn mewn awyrgylch hapus, ysgogol a diogel. Unigolyn yw pob plentyn sydd â'i anghenion, ei dalentau a'i syniadau ei hun. Credwn y dylai rhieni, yr ysgol a'r gymuned weithio gyda'i gilydd er lles a gofal y plant. Golyga hyn bod y plant yn cael eu cyflwyno i nifer fawr o brofiadau ystyrlon ar sawl gwahanol lefel – moesol, addysgol, corfforol, diwylliannol ac ysbrydol.

Gobeithio y byddwch chi a'ch plentyn yn hapus iawn fel rhan o'n hysgol ni. Os nad ydych wedi ymweld â ni, mae croeso i chi ddod â'ch plentyn gyda chi i'n gweld. Byddwn yn falch o ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych ac edrychwn ymlaen at gwrdd â chi.

Nod y prosbectws hwn yw rhoi gwybodaeth i rieni am ein hysgol ni yn ôl gofynion Deddf Addysg 1986. Roedd y wybodaeth yn gywir adeg ei hargraffu, er y gall newidiadau ddigwydd cyn neu yn ystod y flwyddyn ysgol neu yn ystod y blynyddoedd sy'n dilyn.

Mae'r ysgol gynradd hon yn un Gymraeg, Sirol, Gymysg, Ddyddiol. Cymraeg yw iaith gyfathrebu bob dydd yr ysgol.

Dylai rhieni sy'n ystyried anfon eu plentyn i'r ysgol drefnu i ymweld â r ysgol drwy gysylltu â'r Pennaeth yn gyntaf. Gallwch gofrestru enw eich plentyn wedyn yn swyddfa'r ysgol os dymunwch. Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn o Dderwen Fawr i Rosili.

Mae dechrau'r ysgol yn gam mawr ym mywyd plentyn bach a gobeithiwn sicrhau bod y profiad yn un hapus i bawb sy'n gysylltiedig. Mae prynhawn agored yn cael ei drefnu i blant a rhieni’r Meithrin i’w croesawu i’r ysgol.





**Amcanion yr Ysgol yw :-**

- Cynnig awyrgylch hapus a chartrefol sy'n ymestyniad o'r aelwyd er mwyn sicrhau datblygiad meddyliol, emosiynol, ysbrydol a chymdeithasol pob plentyn.
- Disgwyl i'r plant wneud eu gorau bob amser. Gwobrwyir ymdrech yn ogystal â llwyddiant.
- Annog y plant i feddwl drostynt eu hunain, i gymryd cyfrifoldeb dros eu haddysg eu hunain fwy ac i fod yn annibynnol.
- Bod pob plentyn fod yn gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol.
- Anelu at feithrin ymwybyddiaeth o Gymreictod a chariad at wlad a chelfyddyd ein gwlad.
- Annog y plant i barchu'r amgylchedd lleol, gan bwysleisio rôl pob unigolyn yn y gymdogaeth.
- Meithrin hunanhyder, hunan-barch a pharch tuag at eraill, boed yn gyfoedion, athrawon neu oedolion eraill, y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.
- Cynnig ystod eang o brofiadau, er mwyn i'r plant ddatblygu'r sgiliau bywyd angenrheidiol er mwyn datblygu a thyfu i fod yn ddinasyddion cyflawn.
- Dysgu sut i gydweithio a chynorthwyo ei gilydd.
- Annog y plant i ddangos goddefgarwch a pharch tuag at syniadau a daliadau pobl eraill.
- Cynnig cyfle cyfartal i bob unigolyn gymryd rhan ym mhob gweithgaredd, beth bynnag yw'r amgylchiadau.
- Ennyn parch y plant tuag at werthoedd crefyddol a moesol, a dangos cydymdeimlad at hiliau a chrefyddau'r byd.

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod mai bodau unigol ac unigryw yw plant, felly mae'n rhaid parchu eu daliadau ac ystyried eu barn a'u teimladau.

**Amserau Sesiynau'r Ysgol**

Mae'r ysgol ar agor rhwng yr amserau canlynol:
Sesiwn y bore: 8.30 y.b. – 11.00 y.b. (Meithrin bore)
8.30-11.30 y.b. (Dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn 6)


Cenir y gloch am 8.25y.b.

Sesiwn y prynhawn: 12.30 y.p.- 3.00 y.p. (Meithrin prynhawn)
12:30 y.p.- 3.00 y.p. (Dosbarthiadau Derbyn i Flwyddyn 6)

Gofynnir i'r rhieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon erbyn 8.25 y.b. ond nid cyn 8.20 y.b. gan mai dyma pryd fydd y staff ar ddyletswydd (oni bai eu bod yn y clwb brecwast). Atgoffir rhieni o'u cyfrifoldeb i gasglu eu plant yn brydlon am 3.00 y.p. neu i wneud trefniant arall addas. Gofynnwn i rieni i barcio mewn lle call a synhwyrol gogyfer dod ai plentyn/ plant i'r ysgol gan ystyried iechyd a diogelwch plant yr ysgol hon a phlant yr ysgolion cyfagos yn ogystal â diogelwch pobl y gymuned. Mae gan yr ysgol lôn arbennig o fewn ei safle a fydd yn galluogi rhieni i ollwng ei plentyn/ plant yn y bore pan nad yw'r bysiau yno. Gofynnwn am gydweithrediad y rhieni i beidio ag aros am amser hir yn y lôn hon os gwelwch yn dda. Am 3.00 y.h gofynnwn i rieni i beidio â defnyddio'r lôn yma. Mae croeso i rieni sy'n casglu plentyn/ plant o'r clwb terfyn dydd ei defnyddio. Gofynnwn am eich cydweithrediad i barcio yn synhwyrol yn y lôn ar yr amser yma. Petai eich plentyn yn mynychu clwb wedi oriau ysgol megis Chwaraeon, Ffrangeg, Côr ac ati a fuasech cystal â pharcio yn yr un modd ag y mae rhieni yn parcio ar ddiwedd y dydd os gwelwch yn dda er mwyn iechyd a diogelwch y plant.

Mae cludiant ar gael yn rhad ac am ddim i'r plant hynny sy'n byw yn nhalgylch yr ysgol ond sy'n gorfod teithio dros ddwy filltir i gyrraedd yr ysgol.

Mae clwb brecwast a chlwb terfyn dydd ar gael yn yr ysgol. Mae'r clwb brecwast yn dechrau am 7.45 y.b. Mae'r clwb terfyn dydd yn cael ei gynnal rhwng 3.00 y.p. a 5.00 y.p o ddydd Llun i ddydd Iau. Cost 1 plentyn yn y clwb terfyn dydd yw £10.00 (£7.50 i frodyr a chwiorydd). Mae angen archebu lle o flaen llaw i'ch plentyn er mwyn sicrhau ei b/fod yn gallu aros yn y clwb ar noson arbennig. Mae'r clwb brecwast yn rhad ac am ddim i bob plentyn sy'n dymuno dod iddo. Noder mai'r amser olaf i blentyn ddod i gael brecwast yw 8.05 y.b.



**Cinio ysgol a Byrbryd Bore**

Mae Ysgol Llwynderw yn ysgol iach. Rydym wedi derbyn 5 wobr Ysgolion Iach.

Coginir y bwyd cinio yn ffres yng nghegin yr ysgol gan Miss Anna Watson, ein cogyddes. Darperir ciniawau yn ôl polisi deietegol Gwasanaeth Arlwyo Dinas a Sir

Abertawe. Mae dewis dyddiol o ginio cynnes a bwyd llysieuol. Mae pob plentyn yn deilwng i ginio am ddim. Wrth gwrs, gall y plant ddod â brechdanau i'r ysgol, does dim rhaid archebu cinio ysgol.

Darperir ffrwythau bob dydd drwy siop yr ysgol. Pris y ffrwythau yw £12.00 pob hanner tymor (talu trwy iPay).

Mae dŵr yfed ar gael i'r holl blant yn yr ysgol trwy gydol y dydd.

Gofynwn yn garedig i'r rhieni sy'n ddanfon cinio o adref (bocsys bwyd) i ddilyn canllaw yr ysgol a sicrhau fod y bwyd sydd yn y bocs yn fwyd iach – sy'n ran o ddeiet cytbwys y plentyn. Rydym yn ysgol **DIM CNAU**.



## Gwybodaeth am y cwricwlwm

Mae'r byd yn newid. Mae yna lawer o heriau newydd y bydd angen technoleg newydd a syniadau newydd arnynt. Mae angen yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau ar eich plentyn i lwyddo. Bydd cwricwlwm ysgol eich plentyn yn helpu gyda hynny. Nid yw'r cwricwlwm yn ymwneud yn unig â'r hyn maen nhw'n ei ddysgu. Mae hefyd yn ymwneud â sut maen nhw'n dysgu a'r rhesymau pam maen nhw'n dysgu. Bydd cwricwlwm newydd eich plentyn yn cael ei ddylunio ganddyn nhw a'u hathrawon. Byddant yn:

• cymryd rhan mewn gwersi creadigol sydd ag ystyr bywyd go iawn;
• myfyrio a meddwl am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu a symud ymlaen;
• dysgu pynciau sy'n eu cysylltu â gweddill y byd.

Mae gwybodaeth yn dal yn bwysig iawn, felly bydd y cwricwlwm newydd yn rhoi iddynt sgiliau a chyfleoedd i dyfu.

Ceir fwy o wybodaeth am ein cwricwlwm isod:
https://www.yggllwynderw.co.uk/cwricwlwm-i-gymru-curriculum-for-wales/

**Y Pedwar Diben**

Mae'r pedwar diben yn sail i'r cwricwlwm a bydd yn sylfaen i bopeth maen nhw'n ei ddysgu. Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael cefnogaeth i fod yn:

1. ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
2. gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
3. ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i gymryd rhan yng Nghymru a'r byd
4. unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas




Mae’r cwricwlwm newydd yn daith – adeiladu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau. Fe fydd adegau pan maent:
• yn symud ymlaen yn gyflym;
• arafu i sicrhau eu bod yn deall y pwnc;
• cymryd troad oherwydd eu bod yn darganfod rhywbeth sydd o ddiddordeb iddynt.
Nid yw symud ymlaen bob amser yn gysylltiedig â’u hoedran. Ni fydd yn digwydd yr un peth ar yr un pryd i bawb. Byddant yn symud ymlaen fel:
• mae eu gwybodaeth yn cynyddu;
• mae eu dealltwriaeth o bethau’n dyfnhau;
• mae eu sgiliau cyfathrebu yn tyfu;
• mae eu sgiliau’n gwella.
Mae’r cwricwlwm newydd yn ymwneud â chysylltu dysgu. Yn ogystal â dysgu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, bydd chwech maes dysgu a phrofiad (MDaPh). Efallai na fydd eich plant yn cael gwersi o dan yr enwau yma, ond mae popeth maen nhw’n ei ddysgu yn cysylltu â’r ardaloedd hyn

- Celfyddydau mynegiannol
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae croeso i rieni ddod i drafod datblygiad eu plentyn unrhyw bryd, ar ôl trefnu ymlaen llaw. Cynhelir noswaith wybodaeth ar gychwyn y flwyddyn ysgol newydd ac yna mae cyfarfodydd taro mewn ddwywaith y flwyddyn yn ystod tymor yr Hydref a’r Gwanwyn.
Rhoddir adroddiad ysgrifenedig i rieni ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.



**Gwaith Cartref**

Rhennir gwybodaeth am drefniadau gwaith cartref yn ystod noson wybodaeth mis Gorffennaf ar gyfer y dosbarth newydd.
Gosodir gwaith cartref i gefnogi'r gwaith dosbarth fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meithrin a Derbyn | Mae lincs defnyddiol ar gyfer cefnogi eich plentyn/plant ar wefan yr ysgol. |
| Blwyddyn 1 i 6 | Paratoir gwaith cartref yn seiliedig ar y 6 Maes Dysgu a Phrofiad fe'i cyflwynir mewn fformatau sy'n addas ar gyfer grwpiau oedran y plant. |

Disgwylir i bob plentyn unai i ddarllen llyfr/rhan o lyfr cyn noswylio neu bod rhywun yn darllen iddo/iddi neu’n gwrando arno/arni’n darllen o lyfr.

Mae’r geiriau aml ddefnydd ar gael ar wefan yr ysgol.

Mae gwersi offerynnau cerdd arall yn cael ei gynnig o flwyddyn 3 (ffidl, telyn, pres, soddgrwth a drymiau). Bydd angen i’r plentyn ymarfer yr offeryn ei hun hefyd. Petai angen ymarfer canu’r **delyn**, yna mae croeso i’r plant hynny i ddilyn yr amserlen ymarfer yn ystod amseroedd chwarae’r ysgol.

Ni roddir llyfrau darllen yn ystod gwyliau. Bydd disgwyl i’r plant ddarllen llyfrau o’u dewis hwy yn ystod y cyfnod yma. Byddai ymweld â’r llyfrgell lleol yn syniad da.












**Trefniadau am ofal cyffredinol y plant**

Mae gan bob plentyn athro/athrawes ddosbarth sy'n gyfrifol (yn y lle cyntaf) am y disgyblion hynny. Mae'r athrawon dosbarth yn gofalu am ddatblygiad a lles y plant. Os bydd unrhyw broblemau'n codi lle mae angen newidiadau amlwg, byddant yn cael eu hadrodd i'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth, a fydd yn cymryd y cyfrifoldeb drostynt. Mae'r prif gyfrifoldeb yn nwylo'r Pennaeth. Os yw rhiant yn pryderu am unrhyw agwedd ar les ei blentyn/phlentyn bydd amser yn cael ei drefnu iddo/iddi drafod y mater gyda'r athro/athrawes ddosbarth. Byddai'n gynorthwyol petai'r rhiant yn trefnu apwyntiad ymlaen llaw i weld y Pennaeth.
Mae staff yr ysgol wedi dilyn cwrs cymorth cyntaf. Adnewyddir y cymhwyster hyn bob 3 mlynedd. Yn ychwanegol, mae rhai o staff yn yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant pellach, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y plant.

**Amddiffyn a Diogelu Plant**

Mae Ysgol Llwynderw yn diogelu a hyrwyddo lles plant gan ddilyn polisi'r sir. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar lle mae plant yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Byddwn yn wyliadwrus i arwyddion o gam-drin a chamdriniaeth ac yn dilyn ein gweithdrefnau i sicrhau bod plant yn derbyn cefnogaeth effeithiol, amddiffyniad a chyfiawnder. Mae gan Ysgol Llwynderw ddyletswydd i wneud cyfeiriad uniongyrchol os oes angen.


Mrs Rachel Collins (Pennaeth) a Mrs Sarah Proctor – Morgan (Dirprwy bennaeth) yw'r Swyddogion Amddiffyn Plant.

Mrs Ann Evans yw'r Swyddog Amddiffyn y Corff Llywodraethol.

Lisa Collins yw Swyddog Amddiffyn y Sir.

## **Trefniadau cwyno am y cwricwlwm**

Os oes gan unrhyw riant gwyn am drefniadaeth a/neu gynnwys y cwricwlwm (o dan Adran 23 Deddf Addysg 1988), gofynnir iddo/iddi ddilyn y camau canlynol:




Os oes gennych gonsyrns mawr, gofynnwn i chi beidio â'i drafod yn llawn yn ystod noson rieni ond yn hytrach i ofyn am gyfarfod pellach.
Efallai bydd y Dirprwy a'r Pennaneth yn bresennol yn y cyfarfod yma.

**Rheolau'r Ysgol**
Rydym wedi seilio ein rheolau ar dri gair a drafodwyd gan y disgyblion ym mhob dosbarth. Mae'r geiriau hyn yn cael eu hatgyfnerthu'n gyson.

**Parch**
**Gwneud ein gorau glas**
**Caredigrwydd**

**Clybiau ar ôl Ysgol**

- Clwb Terfyn Dydd – Rhedir y clwb o 3:00 – 5.00yh (dydd Llun-Iau) gan staff addas.
- Clwb Chwaraeon e.e. pêl-rwyd, rygbi ac ati
- Clwb Ffrangeg/ Sbaeneg

**Chwaraeon**

Mae'r ysgol yn cystadlu mewn amryw o chwaraeon trwy gydol y flwyddyn e.e. nofio, criced, rygbi, athletau, pêl-rwyd, gymnasteg.
Darperir gwersi nofio i flynyddoedd 3-6 ym mhwll Penlan.

**Gwisg Chwaraeon ac Addysg Gorfforol.**

Anogir y plant i wisgo crys 'T' gwyn heb unrhyw ysgrifen arno a throwsus byrion glas i wneud ymarfer corff.

**Trefn Wythnosol Gwersi Chwaraeon**

Bydd dwy wers yr wythnos. Bydd y plant yn cael eu hyfforddi mewn sawl agwedd ar addysg gorfforol yn ogystal â phwysigrwydd cadw'r corff yn iach ac yn heini. Dysgir nifer o sgiliau, sef, sgiliau gêmau, gymnasteg, athletau, dawns a symudiad a nofio. Bydd y plant yn teithio mewn bws gyda gwregysau diogelwch i'r gwersi nofio. Trefnir yswiriant.

**Ymweliadau Addysgol**

Mae ymweliadau addysgol yn rhan angenrheidiol a phleserus o fywyd yr ysgol. Fe'u cynhelir drwy'r flwyddyn mewn perthynas â rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent yn dod ag addysg yn fyw i'r plant.
Gofynnir i rieni am gyfraniad ariannol gwirfoddol er mwyn i'w plentyn gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Bydd yr ysgol yn ariannu rhai o'r ymweliadau o gronfa'r ysgol. Mae'n bolisi i helpu rhieni os oes anhawster ynglŷn â thalu. Bydd y Pennaeth yn ymdrin â phob cais yn unigol ac yn gyfrinachol. Anfonir manylion llawn cyn pob ymweliad a gofynnir am lofnod rhiant neu warchodwr ar y ffurflen ganiatâd, ynghyd â gwybodaeth am iechyd y plentyn. Fe fydd cyfle i blant

Blynyddoedd 4, 5 a 6 fynd ar gyrsiau preswyl yn lleol: Blwyddyn 4 i Fae Caerdydd, Blwyddyn 5 i Llain a Blwyddyn 6 i Langrannog.

Bydd angen cefnogaeth rhieni o bryd i’w gilydd i ofalu am y plant tra ar ymweliad undydd. Os allwch helpu yn y maes yma a fuasech cystal â rhoi gwybod i’r ysgrifenyddes a gall eich enw gael ei ychwnegu at y rhestr. I blant y meithrin, bydd angen oedolyn yr un i bob plentyn sy’n mynd ar yr ymweliad.

Os ydych chi'n derbyn Credyd Cynhwysol yna mae gennych chi hefyd hawl i:
Arian oddi ar dripiau ysgol

## <u>Trefniadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</u>

Mae plant a phobl ifanc ag ADY angen cymorth ychwanegol i ddysgu. Byddai hyn oherwydd y rhesymau a ganlyn:

- maent yn ei chael hi'n anoddach dysgu na phlant eraill o'r un oedran
- mae ganddynt anabledd sy'n golygu na allant ddefnyddio, neu eu bod yn ei chael hi'n anodd defnyddio, cyfleusterau ar gyfer dysgu yn y feithrinfa, yr ysgol neu'r coleg lleol

Gelwir y cymorth ychwanegol a roddir i blant ag ADY i'w helpu i ddysgu yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Rhaid i'r ddarpariaeth hon gael ei chynnwys mewn cynllun cymorth o'r enw cynllun datblygu unigol (CDU).

Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer person 3 oed neu hŷn yw addysg o fewn yr ysgol sy'n ychwanegol at, neu’n wahanol i, yr hyn sydd ar gael i'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran.

Gall darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu gan athrawon, cynorthwywyr addysgu neu diwtoriaid. Gall gael ei darparu hefyd gan wasanaethau arbenigol fel therapydd lleferydd ac iaith neu athrawon pobl fyddar.

## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr o 3 i 16 oed. Mae yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes yn cwmpasu Astudiaethau Busnes, Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin tra'n meddu ar eu corff ar wahân eu hunain o wybodaeth a sgiliau.

Cyflwynir yn unol â maes llafur cytûn lleol Abertawe ar gyfer CGM (2022). Mae ein cwricwlwm wedi'i gynllunio i sicrhau bod pob disgybl yn derbyn CGM gwrthrychol, beirniadol a lluosog ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu llythrennedd crefyddol trwy gydol eu cyfnod yn Y G G Llwynderw.

Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, nid oes hawl i dynnu'n ôl o CGM.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan. Helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, yw sylfaen ACRh. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, nid oes hawl i dynnu'n ôl o ACRh.

**Nyrs Yr Ysgol**

Mae'r Gwasanaeth Nyrsys Iechyd Ysgolion yn darparu addysg, cymorth, cyngor a chymorth yn yr holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd ac iechyd y cyhoedd ar gyfer plant oedran ysgol a'r gymuned ysgol ehangach. Byddant yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i ddarparu sesiynau ar sail tystiolaeth yn yr ystafell ddosbarth yn unol â'r cwricwlwm ABCh ac ARhPh. Mae nyrsys ysgol ar gael i drafod a chynghori 1:1 hefyd os yw'n briodol. Os hoffech gysylltu â'r Nyrs Ysgol, siaradwch â swyddfa'r ysgol.

**Presenoldeb / Salwch**

Mae'n rhaid i bob ysgol gofnodi a chyhoeddi rhifau absenoldeb heb ganiatâd. Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn bwysig iawn. Bydd y gofrestr yn cau am 8.45 o'r gloch. A fyddech mor garedig â rhoi gwybod i ni os bydd eich plentyn yn sâl ac yn methu â dod i'r ysgol drwy ffonio neu anfon nodyn pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol. Fe fydd hyn yn sicrhau bod caniatâd i'r absenoldeb. Bydd y Swyddog Lles yn archwilio'r cofrestrau ac yn nodi absenoldebau aml ac yn ymweld â chartrefi pan fydd angen egluro absenoldeb cyson.

Mae absenoldeb gyda chaniatâd yn cynnwys salwch, sefyllfaoedd arbennig, apwyntiad deintyddol a meddygol a.y.y.b.

Mae absenoldeb heb ganiatâd yn cynnwys absenoldeb am wyliau dros 10 niwrnod a chyrraedd sesiynau'n hwyr heb reswm.
Os yw eich plentyn yn sâl neu'n derbyn triniaeth gan feddyg, doethach fyddai ei gadw/chadw gartref tan i'r driniaeth orffen. Os bydd eich plentyn yn teimlo'n sâl yn ystod y diwrnod ysgol byddwn yn gofyn i chi ei gasglu/chasglu. Cofiwch roi gwybod i ni os bydd eich rhif ffôn yn newid.

Mae'n rhaid i bob ymwelydd gofnodi i mewn ac allan yn ystod y dydd. Cedwir cofnod electroneg o ymwelwyr ar ein system arwyddo mewn ac allan – Inventry.

Os oes angen meddyginiaeth ar eich plentyn yn yr Ysgol, cysylltwch â'r ysgrifenyddes. Cedwir anadlwyr Asthma / EpiPen mewn mannau hwylus bob amser.

## Trefniadau Diogelwch

Rydym yn dilyn canllawiau polisi Iechyd a Diogelwch y Sir. Mae gennym bwyllgor iechyd a diogelwch prysur ac effeithiol. Maent yn cwrdd yn dymhorol ac yn archwilio'r ysgol er mwyn sicrhau bod popeth yn iawn. Maent yn ysgrifennu adroddiad ac os bydd angen gwneud unrhyw beth byddant yn cynnwys rhestr o argymhellion.

## Pontio

Yn ystod Blwyddyn 6 bydd cysylltiadau agos rhwng yr Ysgol ag Ysgol Gyfun Gwyr. Bydd noson agored yn Ysgol Gyfun Gwyr yn ystod y tymor cyntaf yn ogystal â chyfle yn ystod y flwyddyn i'r plant ymweld â'r ysgol am wersi. Bydd wythnos breswyl o bonito yn Llangrannog yn ystod tymor yr Haf. Bydd y plant hefyd yn derbyn gwers Ffrangeg gan athro o Gwyr yn ogystal â gwersi sgiliau yn achlysurol.

## Gwisg Ysgol

Anogwn y plant i wisgo gwisg swyddogol yr ysgol. Dyma argraff gyntaf ymwelwyr o Ysgol Llwynderw. Gellir prynu'r wisg ysgol yn:
J&S Sports, 74, Tŷ Coch Road, Tŷ Coch
Neu ar-lein: https://www.theschooluniformshop.com/llwynderw-school-39.asp

Gwisg y merched
-Siwmper las yr ysgol
-Crys polo coch
-Trowsus/ sgert/ ffrog pinaffor las
-Esgidiau du
-Ffrog Haf goch

Gwisg y bechgyn
-Siwmper las yr ysgol
-Crys polo coch
-Trowsus/ siorts las
-Esgidiau du

-Siorts glas

Os ydych chi'n derbyn Credyd Cynhwysol yna mae gennych chi hefyd hawl i:
Grant Gwisg Ysgol.

**NODER NAD YW JINS YN RHAN O WISG YR YSGOL**

Mae yna groeso i ddisgyblion gludo eu eiddo personnol mewn bag cefn. Gallant ddod á'u brechdanau mewn bocs (nid bag cefn). Mae croeso i'r plant adael dillad ymarfer corff yn yr ysgol tan amser gwyliau. Gofynnwn i chi labelu holl offer ysgol eich plentyn yn glir gyda ei h/enw.

**Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Llwynderw (CRA)**

Mae cymdeithas rieni ac athrawon weithgar a chefnogol iawn yn yr ysgol sy'n trefnu nifer o weithgareddau cymdeithasol i godi arian yn ystod y flwyddyn. Mae'n bwysig fod rhieni yn ymroi i fywyd yr ysgol.

**Y Corff Llywodraethu**

Rhoddodd Deddf Addysg (Rhif 2 1986) a Deddf Addysg 1988 gyfrifoldebau newydd am y cwricwlwm, addysg rhyw, cyllid, penodi staff, disgyblaeth a gwahardd plant, cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a chynnal Cyfarfod Blynyddol Rhieni a Llywodraethwyr.

Mae llywodraethwyr yn gwasanaethu am bedair blynedd. Etholir rhieni-lywodraethwyr ac athrawon-lywodraethwyr drwy bleidlais gudd. Mae gan rieni-lywodraethwyr yr hawl i gwblhau eu pedair blynedd ar ôl i'w plentyn adael yr ysgol. Nid oes gan athrawon-lywodraethwyr yr hawl i wasanaethu ar ôl iddynt orffen dysgu yn yr ysgol.

**Rhiant / Rhieni- Lywodraethwyr**
Mrs Nerys James
Mrs Laura Poiner
Mrs Anwen Jones
Mr Chris Prosser

**Llywodraethwyr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol**
Mrs Emma Beynon

**Llywodraethwyr Cyfetholedig**
Mr Martyn Jones

Mrs Ann Evans
Mrs Lowri Davies

**Athrawon -Lywodraethwyr**
Mrs Rachel Collins (Pennaeth)
Mrs Rebecca Routledge

**Llywodraethwr Staff**
Mrs Carly Chinhengo

**Clerc y Llywodraethwyr**
Mrs Lowri Phillips

**Cynghorydd Cymuned**

**<u>Aelodau Staff</u>**
Mae ysgol dda yn dibynnu ar yr holl staff yn cydweithio fel tîm. Ein nod yw cael staff sy'n ymroddedig i sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial llawn.

**Athrawon**

Pennaeth Mrs Rachel Collins

Dirprwy Bennaeth Mrs Sarah Proctor-Morgan

Meithrin Mrs Ceri Parker

Derbyn Mrs Emily Turner

Blwyddyn 1 a 2 Mrs Mererid Govier
Miss Elise Jones
Mrs Sarah Proctor-Morgan & Mrs Sian Thomas

Blwyddyn 3 a 4 Mrs Lucy Diamond & Mrs Jess Peel
Mr Matthew Hughes
Mrs Ffion Morgan & Mrs Jodie James-Perkins

Blwyddyn 5 a 6 Mrs Angharad Bean
Mrs Rebecca Routledge
Mrs Rachel Lewis & Ms Lowri Harry

ADY Mrs Jodie James-Perkins

Cynorthwywyr dosbarth – Mrs Rhiannon Williams, Mrs Claire Jones, Mrs Sioned Trick, Miss Naomi Hole, Miss Poppy John, Mrs Ceindeg Spiller, Mrs Teleri Davies, Miss Lydia Ciccolella, Mrs Sian Jones, Mrs Carly Chinhengo

Staff Clwb gofal ar ôl ysgol – Miss Naomi Hole, Miss Poppy John, Ms Stefanie Rainey, Miss Lydia Ciccollela, Mrs Bridget Thomas

Swyddfa **-** Mrs Teleri Davies & Mrs Lowri Phillips

Staff cegin - Miss Anna Watson, Miss Jen Croucher, *Ms Alison Casey, Ms Sudeshna Rakshit*

Goruchwylwyr cinio –Ms Stefanie Rainey

Gofalwr - Mr Phil Renowden

**Diolch am dreulio amser yn darllen y Prosbectws hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiwn arall, peidiwch ag oedi, codwch y ffôn neu dewch i'n gweld. Cewch groeso bob amser yn Llwynderw.**

## Tymor Ysgol 2025 - 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref | 01/09/2025 | - | 19/12/2025 |
| Tymor y Gwanwyn | 05/01/2026 | - | 27/03/2026 |
| Tymor yr Haf | 13/04/2026 | - | 20/07/2026 |

## Hanner Tymor

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref | 27/10/2025 | - | 31/10/2025 |
| Gwanwyn | 16/02/2026 | - | 20/02/2026 |
| Haf | 25/05/2026 | - | 29/05/2026 |

**Gwyl y Banc - 04/05/2026**

**HMS (hyfforddiant mewn swydd) ysgol ar gau i'r plant 01/09/25, 02/09/26, 05/01/26, 13/02/2026, 13/04/2026, 20/07/2026**

**Yr Ysgol**













